



Senedd 2026

# RNID: UCHEL AC EGLUR





RNID

Cefnogi pobl fyddar, sydd â cholled clyw neu dinitws



# Cyflwyniad

## Cynnwys

**2.**
**Cyflwyniad**

**4.**
**Pwy yw RNID?**

**5.**
**Sut mae RNID yn cefnogi ein cymunedau yng Nghymru**

**6.**
**Nod RNID**

**7.**
**IECHYD:** Sicrhau modd i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd o safon

**10.**
**CYFLOGAETH:** Sicrhau cyfleoedd cyfartal yn y gwaith

**13.**
**CYNHWYSIANT:** Gweithio gyda phobl sy'n fyddar, yn ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu sydd wedi colli eu clyw i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd

**Mae 1 o bob 3 o bobl yng Nghymru, sef dros 850,000 o bobl, yn fyddar, wedi colli eu clyw neu â thinitws. Mae disgwyl i'r ffigwr hwn gynyddu, gan fod y nifer o bobl sy'n colli eu clyw yn cynyddu wrth iddynt heneiddio.**

### Mae'n debyg bod o leiaf 500,000

angen cymorth gyda chyfathrebu neu addasiadau rhesymol i allu manteisio ar ofal iechyd.




### Byddai dros 100,000

yn ei chael hi'n anodd clywed sgyrsiau.




### Mae dros 400,000

o oedran gweithio.



**Mae nifer yr achosion o golli clyw yn cynyddu gydag oedran;**




tra bod **45% o bobl dros 40** wedi colli rhywfaint o'u clyw, mae hyn yn cynyddu i **55% i bobl dros 50,** ac yna'n parhau i gynyddu gydag oedran i oddeutu **80% ymhlith pobl dros 70.**



Dywedodd mwy na **dwy ran o dair** (65%) eu bod nhw wedi wynebu agweddau negyddol






**Hanner**

(52%) eu bod nhw wedi profi hyn gan staff manwerthu




**1 mewn 5**

(18%) eu bod nhw wedi profi hyn gan eu cydweithwyr

Dywedodd **bron i draean** (28%) bod y rhan fwyaf o bobl yn eu hanwybyddu mewn mannau cyhoeddus





**1 mewn 4** (28%) bod hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo'n unig neu wedi'u hynysu

# Pwy yw RNID?

## Gydag ein cymunedau, mae RNID yn bwrw iddi i newid y gymdeithas gan sicrhau ei bod yn fwy hollgynhwysol i bawb, yn helpu pobl i glywed yn well heddiw, ac yn ariannu ymchwil blaenllaw.

Yn anffodus mae ein cymunedau'n wynebu heriau ym mhob agwedd o'u bywydau, ond mae RNID wedi canolbwyntio ar dri phrif faes i gyflawni newid:

### IECHYD

Sicrhau modd i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd o safon



### CYFLOGAETH

Sicrhau cyfleoedd cyfartal yn y gwaith



### CYNHWYSIANT



Gweithio gyda phobl sy'n fyddar, yn ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu sydd wedi colli eu clyw i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd

Ers etholiad 2021, mae RNID wedi cydweithio gydag ASau o'r holl bleidiau i wella bywydau pobl sy'n fyddar, sydd wedi colli eu clyw neu sydd â thinitws.

- Rydym wedi mynd ati i ymgyrchu am **Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)** ac rydym yn gobeithio y bydd yn dod i rym fel cyfraith cyn yr etholiad nesaf. At hyn, buom yn aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Iaith Arwyddion Prydain y Llywodraeth.
- Rydym wedi helpu i gryfhau **Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch a Chyfathrebu**, gan sicrhau newidiadau hanfodol i wella modd pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw i fanteisio ar ofal iechyd.
- Rydym wedi llywio polisïau i gefnogi pobl fyddar ac anabl drwy'r **Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl** a'r **Tasglu Hawliau Pobl Anabl.**
- Rydym wedi cyfrannu tuag at yr **Ymagwedd tuag at Glywedeg yn y Dyfodol**, sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar a diagnosis o golli clyw mewn gofal sylfaenol a chymunedol.

Rydym wedi gweld newidiadau a chynnydd sylweddol ar droed yng Nghymru ers 2021, ond mae'n rhaid inni barhau gydag ein hymdrechion.




# Sut mae RNID yn cefnogi ein cymunedau yng Nghymru

Mae RNID hefyd yn cefnogi pobl sydd wedi colli eu clyw ledled Cymru drwy ein gwasanaethau Agos Atoch chi RNID. Fel rhan o'r gwasanaeth, mae ein gwirfoddolwyr cymwys yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb yn y gymuned gyda gwiriadau clyw, cynnal a chadw eich teclynnau clyw, yn ogystal â chymorth, gwybodaeth a chyngor i gyfoedion.

Buom yn cynnal y gwasanaeth hwn ym Mhowys ers **2014** ond eleni, gyda diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym wedi ehangu ein gwasanaeth i gefnogi mwy o bobl ledled De Cymru, gan gydweithio'n agos gyda Byrddau Iechyd Hywel Dda, Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro i gynnig y gwasanaeth hwn sydd hefyd yn lleddfu'r pwysau ar adrannau Clywedeg y GIG.

Ym Mhowys yn unig, rydym wedi cefnogi dros **4,400 o bobl ers 2022,** ac mae disgwyl i'r ffigwr hwnnw gynyddu'n sylweddol wrth inni roi ein gwasanaethau newydd ar waith ar draws tri Bwrdd Iechyd arall a chysylltu gyda mwy o bobl sydd angen cymorth gyda'u clyw.



# Nod RNID

**Ein nod ydy sicrhau bod Cymru'n rhywle lle mae pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yn cael eu cynnwys yn gyfan gwbl, a'u trin gyda pharch, urddas a dealltwriaeth.**

**I gyflawni hyn, rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i fabwysiadu ein chwe gofyniad allweddol.**




1. Sicrhau mynediad cyfartal i'r GIG ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw.

2. Moderneiddio a buddsoddi mewn gwasanaethau clywedeg i gefnogi ymyrraeth gynnar a diagnosis o golled clyw.

3. Creu Hwb Gwybodaeth am Anableddau i gefnogi cyflogwyr sydd am recriwtio a chadw staff byddar ac anabl.

4. Sicrhau bod yr holl wasanaethau cymorth cyflogaeth ledled Cymru, y mae pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yn eu defnyddio, yn hygyrch ond hefyd wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion.

5. Gweithredu Bil Iaith Arwyddion Prydain Cymru a sicrhau bod gan ddefnyddwyr Byddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru fynediad cyfartal i wasanaethau cyhoeddus.

6. Cydweithio gyda phobl sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw mewn proses o gyd-gynhyrchu i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a strategaethau'r llywodraeth sy'n trawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd.


# IECHYD: Sicrhau modd i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd o safon

## GOFYNIAD 1: Sicrhau mynediad cyfartal i'r GIG ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw.

Mae gwasanaethau Cymraeg y GIG yn dal yn anghyraeddadwy i bobl sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw, sy'n golygu bod eu hiechyd mewn peryg ac yn tanseilio eu hawl i breifatrwydd ac urddas.

Wrth gwrs mae mynediad cyfartal i ofal iechyd yn hawl ddynol, ond am yn llawer rhy hir, mae pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yng Nghymru wedi eu methu gan GIG sy'n esgeuluso eu hanghenion cyfathrebu'n rheolaidd.

Rydym yn amcan bod gan 500,000 o bobl yng Nghymru lefel o golled clyw sy'n golygu eu bod yn debygol o fod angen cymorth cyfathrebu neu addasiadau rhesymol i fanteisio ar apwyntiadau gofal iechyd. Mae hynny'n 1 ym mhob 6 o bobl yng Nghymru. Yn wir mae'n broblem brys sy'n achosi effaith sylweddol ac eang.



Dyma ganfyddiadau ein hymchwil yn 2025 gyda phobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw, **Rydym yn Dal i Gael Ein Hanwybyddu:**
- Mae **1 o bob 4** (25%) heb dderbyn yr wybodaeth a'r cymorth cyfathrebu sydd ei angen arnyn nhw gan y GIG.
- **Mae dros hanner** (56%) wedi gorfod dibynnu ar ffrindiau neu deulu i ddehongli neu i drosglwyddo gwybodaeth iddyn nhw mewn apwyntiad gofal iechyd.
- Dywedodd **1 o bob 5** (18%) bod cyflwr iechyd wedi gwaethygu yn sgil diffyg cyfathrebu hygyrch, a dywedodd 1 o bob 4 (25%) eu bod nhw wedi osgoi gofyn am gymorth ynghylch pryder newydd oedd ganddyn nhw.
- At hyn, roedd **1 mewn 10** (8%) wedi osgoi galw am ambiwlans neu fynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys o ganlyniad.
- Dim ond **17%** o staff y GIG yng Nghymru sy'n teimlo y gallan nhw ddiwallu anghenion pobl fyddar neu sydd wedi colli eu clyw ar hyn o bryd.

**Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf gyflawni'r canlynol:**
- Rhoi'r Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch a Chyfathrebu ar waith yn llawn, gan sicrhau bod dulliau llywodraethu a monitro cadarn mewn lle, a bod gan bobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw fynediad cyfartal at ofal GIG Cymru.
- Gorfodi hyfforddiant i staff y GIG fel eu bod yn deall ac yn gweithredu'r Safonau yn eu gwaith gyda phobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw.
- Sicrhau bod proses cwynion y GIG a grwpiau cleifion yn hygyrch, er mwyn sicrhau caiff pryderon ein cymuned eu cydnabod, eu cynrychioli a'u dwyn i ystyriaeth yn ein blaenoriaethu gwella.
- Cynnig y dechnoleg gywir i GIG Cymru er mwyn cofnodi, monitro, rhannu a diwallu anghenion cyfathrebu cleifion byddar a chleifion sydd wedi colli eu clyw, a sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth ganolog ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

# IECHYD: Sicrhau modd i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd o safon

## GOFYNIAD 2: Moderneiddio a buddsoddi mewn gwasanaethau clywedeg i gefnogi ymyrraeth gynnar a diagnosis o golli clyw.

Er gwaethaf pa mor gyffredin yw colled clyw ymhlith poblogaeth Cymru, bu cyllid ar gyfer gwasanaethau clyw ymhlith y gwariant isaf cyson yng nghyllideb GIG Cymru.[1]

Mae'r diffyg buddsoddiad hwn yn cael effaith sylweddol. Mae dros 10,000 o bobl ar restr aros am declyn cymorth clyw – ymyrraeth syml a rhad a allai wella ansawdd bywyd pobl yn eithriadol.[2]
Yn yr un modd, does dim modd i 48,000 o bobl sydd angen tynnu cwyr fanteisio ar wasanaeth y GIG, er bod polisi Llywodraeth Cymru yn datgan y dylai bod hyn yn hygyrch i bawb sydd ei angen mewn gofal sylfaenol a chymunedol.[3] Heb y modd o allu manteisio ar wasanaeth tynnu cwyr amserol gyda'r GIG, gallai pobl ddioddef symptomau megis colli clyw a thinitws, a chael eu gwadu rhag manteisio ar ofal neu ddiagnosis clywedeg hanfodol.

Gallai methu â rheoli colled clyw gael effaith sylweddol: mae wedi'i gysylltu gydag ynysigrwydd, iselder ac eiddilwch. Mae colled clyw heb ei drin hefyd yn gysylltiedig gyda risg uwch o ddementia, sydd â chanlyniadau hirdymor o ran y costau i'r GIG.

I fynd i'r afael â hyn, ac i annog pobl i wirio'u clyw yn fwy rheolaidd, mae RNID wedi datblygu prawf clyw ar-lein 3 munud o hyd  rhad ac am ddim y mae bron i 700,000 o bobl wedi'i ddefnyddio bellach.

Hoffem i'r llywodraeth nesaf gydnabod pwysigrwydd colli clyw fel penderfynydd ehangach o ddeilliannau iechyd, a gallai moderneiddio a buddsoddi mewn gwasanaethau clywedeg gefnogi heneiddio'n iach ac iechyd ehangach y boblogaeth.

**Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf gyflawni'r canlynol:**

- Sicrhau bod modd i bawb fanteisio ar wasanaethau clywedeg o safon gan y GIG mewn gofal sylfaenol a chymunedol, gan fynd i'r afael â'r broblem tymor byr o restrau aros maith a chreu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan ategu'r Ymagwedd tuag at Glywedeg yn y Dyfodol.
- Cynnig gwasanaeth tynnu cwyr gan y GIG sydd ar gael i unrhyw un sydd ag angen meddygol, gan roi diwedd i'r loteri cod post. Bydd yn rhaid cynnig cyngor diogel a chyson ar reoli cwyr clust eich hunain fel rhan o'r gwasanaeth hefyd.
- Hyrwyddo gwiriadau clyw rheolaidd ar gyfer pobl yng Nghymru a chyflwyno gwiriad clyw cenedlaethol i bobl 50 neu hŷn i alluogi adnabod ac ymyrryd yn gynnar. Hoffem hefyd weld gwiriad clyw digidol yn cael ei ychwanegu at wefan GIG Cymru, gwefannau byrddau iechyd a rhaglen ffôn GIG Cymru i annog pobl i wirio'u clyw yn rheolaidd.

[1]Welsh Government, NHS expenditure programme budgets: April 2023 to March 2024, published 21 October 2025. Note: this is the latest release reflecting the most recent data, but the same reports are available for previous years reflecting 'hearing' or 'hearing problems' as the lowest spend category.
[2]StatsWales, Audiology services waiting times by weeks waiting, service, site and age group, October 2009 onwards, accessed October 2025: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/audiology-services/waitingtimes-by-weekswaiting-service-site-month
[3]RNID, Stop the Block: the crisis of NHS ear wax removal in Wales, 2025 - https://rnid.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/stop-the-block-2025-report-WALES-1.pdf

# IECHYD: Sicrhau modd i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd o safon

**Egwyddorion ar gyfer y polisi iechyd:** Er mwyn cyflawni newid ystyrlon, mae'n rhaid i'r Llywodraeth newydd sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn sail i'r polisi iechyd:

1. **Gweithredu Cymru gyfan a llywodraethu effeithiol:** Yn ystod tymor olaf y Senedd, rydym wedi gweld polisïau effeithiol yn cael eu tanseilio gan weithrediad gwael neu anghyson, gydag amrywiadau ledled y byrddau iechyd, a chan arwain at loteri cod post o ran gwasanaethau. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf fynd i'r afael â hyn i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n elwa.


2. **Rhoi dull arloesol ar waith:** Hoffem i'r llywodraeth nesaf fanteisio ar dechnoleg a modelau gwasanaeth newydd a allai drawsnewid gofal clyw a chreu dyfodol lle mae gwasanaethau'n fwy cynaliadwy, yn hygyrch a lle mae'r person yn ganolog. Mae ein hadroddiad Gofal Clyw ar ei Newydd Wedd yn bwrw golwg ar sut gellir cyflawni hyn.



## Gwiriad clyw ar-lein RNID

Mae gan RNID wiriad clyw ar-lein rhad ac am ddim sy'n fodd i unrhyw un wirio eu clyw mewn dim ond tri munud. Mae'r gwiriad, sy'n mesur pa mor dda y gallwch glywed lleferydd dros sŵn cefndir, ar gyfer unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn sydd heb dderbyn diagnosis o golled clyw. Ar ôl ei gwblhau, mae'r gwiriad yn nodi a oes angen i bobl weld gweithiwr iechyd proffesiynol am eu clyw ac mae'n cynnig cyngor ar y camau nesaf i'w cymryd.

Mae Gwiriad Clyw RNID yn dangos pa mor rhwydd ydy hi i gynnig gwiriad digidol arferol – gellir ychwanegu gwiriad clyw yn app (rhaglen ffôn) newydd GIG Cymru.



# CYFLOGAETH: Sicrhau cyfleoedd cyfartal yn y gwaith

## GOFYNIAD 1: Creu Hwb Gwybodaeth am Anableddau i Gymru gan gynnwys adnoddau i gyflogwyr allu recriwtio a chadw staff byddar ac anabl, ac i bobl fyddar sydd angen cymorth.

Mae pobl sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw yn llai tebygol o fod mewn gwaith na'r boblogaeth sydd ddim yn anabl. Maen nhw'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dod o hyd i waith, o brosesau recriwtio anhygyrch, i agweddau negyddol yn y gwaith.

Fe wyddom fod agweddau a dealltwriaeth wael gan gyflogwyr yn rhwystr sylweddol i bobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw rhag dod o hyd i waith, cychwyn gweithio ac yna parhau i fod mewn gwaith.

Byddai Hwb Gwybodaeth am Anableddau yn mynd i'r afael â hyn gan greu porth canolog o wybodaeth, adnoddau a chanllawiau yn ogystal â chyfeirio at raglenni cymorth a chynlluniau cyllid eraill.

Byddai hyn yn gymorth i gyflogwyr fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac ailadrodd arfer gorau, gan roi'r hyder iddyn nhw gefnogi eu gweithwyr yn gyfan gwbl.

Dylai'r Hwb hefyd gynnig cymorth i bobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw sy'n chwilio am waith, drwy eu cyfeirio at gymorth sydd ar gael iddyn nhw ledled Cymru.



**Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf gyflawni'r canlynol:**

- Sicrhau bod Hwb Gwybodaeth am Anableddau'n adlewyrchu'r llwybr llawn o recriwtio, adw a chefnogi gweithwyr anabl o bob oedran, gan gynnwys y rheiny sy'n dod yn anabl neu sy'n datblygu colled clyw o fewn y gweithlu.
- Amlygu enghreifftiau o arfer gorau ac astudiaethau achos lle mae cyflogwyr wedi gwella eu harferion ac wedi gweld buddion.
- Cynnig gwybodaeth i bobl fyddar a phobl anabl sy'n chwilio am waith ynghylch y cynlluniau cymorth cyflogaeth sydd ar gael iddyn nhw, gyda gwybodaeth ychwanegol ar gymorth arbenigol a hygyrchedd.
- Cydweithio gyda phobl fyddar ac anabl a chyflogwyr i ddeall eu hanghenion a phrofiadau, a sicrhau caiff y gwaith ei adolygu, ei ddiweddaru a'i hyrwyddo'n rheolaidd.
- Darparu map hygyrch o'r cynlluniau a'r adnoddau cymorth cyflogaeth sydd ar gael i bobl fyddar ac anabl ledled Cymru.

# CYFLOGAETH: Sicrhau cyfleoedd cyfartal yn y gwaith

## GOFYNIAD 2: Sicrhau bod yr holl wasanaethau cymorth cyflogaeth ledled Cymru y mae pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yn eu defnyddio'n hygyrch ond hefyd wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r un rhwystrau y mae pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yn wynebu wrth geisio dod o hyd i waith a chychwyn gweithio yn aml yn ymddangos mewn rhaglenni cymorth cyflogaeth sydd i fod i'w helpu. Boed hynny oherwydd bod rhaglenni cymorth yn anhygyrch, neu os nad ydyn nhw'n mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol y mae pobl sydd wedi colli eu clyw yn eu hwynebu.

Mae hyn yn arbennig o ddifrifol i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, sydd ymhellach o'r farchnad lafur. Dangosai dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad bod 38% o ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru'n anweithgar yn economaidd yn sgil salwch hirdymor neu anabledd. Mae hyn yn cymharu â 7% o'r boblogaeth gyfan yng Nghymru.[4]

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r sefyllfa o ran cymorth cyflogaeth yng Nghymru wedi newid yn aruthrol. Bu gostyngiad yn y nifer o raglenni cymorth arbenigol sydd ar gael i bobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw, gan eu gadael heb gymorth wedi'i deilwra sy'n deall y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu ac yn diwallu eu hanghenion.

Mae hyn yn ychwanegol i rwydwaith darparu cymhleth; gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol a mudiadau trydydd sector.

Hoffem weld y Llywodraeth nesaf yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn mewn darpariaeth drwy adolygiad strategol o'r cymorth cyflogaeth sydd ar gael ledled Cymru, a sut mae'n diwallu anghenion pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw.

Yn wir mae swyddi da yn hybu annibyniaeth, iechyd meddwl a lles ac mae'n hollbwysig bod pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yn derbyn cymorth i ennill sgiliau, rhoi hwb i'w hyder a dod o hyd i waith.

**Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf gyflawni'r canlynol:**

- Nodi a mynd i'r afael â'r diffygion o ran cymorth cyflogaeth sydd wedi ymddangos yng Nghymru o ganlyniad i golli nifer o fodelau ariannu, ac asesu'r effaith ar grwpiau sy'n fwy tebygol o fod yn ddiwaith neu ymhellach o'r farchnad lafur.
- Sicrhau bod yr holl wasanaethau cymorth cyflogaeth yng Nghymru yn hygyrch i bobl sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw, o leiaf, a bod hygyrchedd yn rhan o'r broses gomisiynu ar gyfer darparwyr cymorth yn y dyfodol.
- Sicrhau bod cymorth gan wasanaethau mwy arbenigol, er enghraifft rhai sy'n arbennig ar gyfer pobl anabl neu bobl 50+, wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw, yn deall eu hanghenion ac yn ymwneud â rhwystrau penodol maen nhw'n eu hwynebu.
- Os na fydd cynnydd i wella'r cyfleoedd gwaith i bobl fyddar neu bobl sydd wedi colli eu clyw, ystyried comisiynu cymorth arbenigol.

[4]RNID analysis of Census data 2021

# CYFLOGAETH: Sicrhau cyfleoedd cyfartal yn y gwaith

**Egwyddorion ar gyfer y polisi Cyflogaeth:**
I gyflawni'r effaith angenrheidiol, mae'n rhaid i'r egwyddorion canlynol fod yn sail i'r camau gweithredu uchod:

1. **Sicrhau bod pontio'r Bwlch Gwaith i Bobl Anabl yn flaenoriaeth ar draws y Llywodraeth**, y mae'r holl Weinidogion yn cyfrannu'n frwd tuag ati, yn enwedig ar gyfer y rheiny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag dod o hyd i waith.

2. **Gwella cydweithrediad, cydlyniant ac integreiddio â chynlluniau cymorth cyflogaeth o dan arweiniad Llywodraeth y DU,** megis Mynediad at Waith, sy'n cynnig cymorth hanfodol i bobl fyddar ac anabl. Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru hefyd ymgyrchu i ddiogelu'r cynlluniau hyn a sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â heriau sy'n benodol i Gymru a diwallu anghenion pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yng Nghymru.

3. **Gwella cysondeb a mynd i'r afael â chymhlethdod gwasanaethau cymorth cyflogaeth yng Nghymru**. Sicrhau bod gwybodaeth ar gymorth cyflogaeth sydd ar gael yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddi, a bod yr holl raglenni'n cyfrannu tuag at system hollgynhwysol o gymorth sydd wedi'i gomisiynu'n genedlaethol, ar y cyd â gwasanaethau cymorth lleol ac arbenigol.

4. **Cyflwyno model ariannu cynaliadwy a thymor hirach i sicrhau mwy o sefydlogrwydd ar gyfer darparwyr a'r bobl sy'n elwa o'u cymorth.** Yn sgil newidiadau yn ystod y blynyddoedd diweddar, collwyd cyllid cyflogaeth sylweddol, yn enwedig ar gyfer cymunedau difreintiedig. O ganlyniad, fe gollwyd nifer o wasanaethau, gan olygu bod darlun anghyson ledled Cymru ac mae taer angen mynd i'r afael â hyn.



# CYNHWYSIANT: Gweithio gyda phobl sy'n fyddar, yn ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu sydd wedi colli eu clyw i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd

## GOFYNIAD 1: Gweithredu Bil Iaith Arwyddion Prydain Cymru a sicrhau bod gan ddefnyddwyr Byddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru fynediad cyfartal i wasanaethau cyhoeddus.

Amcangyfrifir bod rhwng 4,000 i 7,000 o ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru lle mae Iaith Arwyddion Prydain naill ai yn iaith gyntaf neu'n ail iaith iddyn nhw. Fodd bynnag, am yn llawer rhy hir, mae Iaith Arwyddion Prydain wedi derbyn llai o gydnabyddiaeth ddeddfwriaethol yng Nghymru o gymharu ag unrhyw le arall yn y DU, megis yr Alban a Lloegr, lle mae Deddfau Iaith Arwyddion Prydain wedi bod ar waith ers 2015 a 2022 yn y drefn honno.

Rydym yn falch o gefnogi'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig a gyflwynwyd fel Bil Aelodau ac y mae'r Senedd yn ei ddwyn i ystyriaeth ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym cyn diwedd tymor y Senedd hwn, ond bydd yn gyfrifoldeb ar bwy bynnag sy'n ffurfio'r llywodraeth nesaf i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn ac yn ystyrlon.

Mae angen y ddeddfwriaeth hon ar frys. Mae defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yn wynebu rhwystrau sylweddol ym mhob agwedd o'u bywyd yn sgil darpariaeth wael o wasanaethau mewn Iaith Arwyddion Prydain ledled y meysydd iechyd, addysg, trafnidiaeth a chyflogaeth, ac yn sgil agweddau a dealltwriaeth gyhoeddus wael. Bu i'n hymchwil gyda defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar ddangos bod 71% o'r farn bod gan y cyhoedd agwedd negyddol tuag at bobl fyddar, ac mae 34% o'r cyhoedd yn dweud nad ydyn nhw'n gwybod sut i gyfathrebu gyda defnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain byddar.[5]

**Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf gyflawni'r canlynol:**

- Cyhoeddi strategaeth Iaith Arwyddion Prydain cenedlaethol cadarn gyda thargedau a dulliau eglur a mesuradwy ar gyfer llywodraethu a monitro.
- Cyd-gynhyrchu canllawiau gweithredu ar gyfer cyrff cyhoeddus gyda defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain ledled Cymru fel prif flaenoriaeth.
- Cynyddu gallu o ran gweithredu drwy gyflawni'r canlynol:
  - Creu strategaeth gweithlu ar gyfer dehonglwyr a chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain i ategu gweithredu a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.
  - Sirchau bod staff gwasanaethau cyhoeddus hanfodol megis y GIG, llywodraeth leol, darparwyr cymorth cyflogaeth a darparwyr trafnidiaeth yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r byddar ac yn deall sut i gefnogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain fel rhan o'u gwasanaethau.

[5] RNID, It Does Matter, 2024: https://rnid.org.uk/wp-content/uploads/2024/04/RNID-It-Does-Matter-Report-V2.pdf

# CYNHWYSIANT: Gweithio gyda phobl sy'n fyddar, yn ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu sydd wedi colli eu clyw i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd

## GOFYNIAD 2: Cydweithio gyda phobl sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw mewn proses o gyd-gynhyrchu i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a strategaethau'r llywodraeth sy'n trawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd.

Ar gychwyn tymor olaf y Senedd yn 2021, roedd pwyslais ar adfer yn dilyn y pandemig. Bu i adroddiad Drws ar Glo y Llywodraeth yng Ngorffennaf 2021 amlygu effaith anghymesur y pandemig ar bobl fyddar ac anabl, a sut y bu iddo waethygu anghydraddoldebau ymhellach.

Cafwyd cynnydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond mae angen cyflawni rhagor o waith i drawsnewid cyfleoedd bywyd pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw. Hoffem i'r Llywodraeth nesaf sicrhau bod pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw ynghlwm â'r gwaith llunio polisïau cyhoeddus drwy broses cyd-gynhyrchu gwirioneddol, i lywio'r polisïau sy'n effeithio ar eu bywydau'n uniongyrchol.



**Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf gyflawni'r canlynol:**

- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Anableddau tymor byr, canolig a hirdymor yn gyflym i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae pobl fyddar ac anabl yn eu hwynebu ym mhob agwedd o'u bywyd, yn seiliedig ar farn a chyfraniadau cymunedau o bobl fyddar.
- Sicrhau bod gan y Cynllun Gweithredu hwn nod pendant, gyda thargedau mesuradwy â therfyn amser, wedi'u hategu a'u craffu gan weithdrefn llywodraethu cadarn i sicrhau caiff cynnydd ei fonitro a'i adolygu yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd.
- Gweithredu dull traws-Lywodraeth i oresgyn y rhwystrau mae pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw yn eu hwynebu yn y meysydd trafnidiaeth, gofal iechyd, cyflogaeth, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gyda mynediad wrth wraidd hyn i gyd.
- Gwella'r gronfa ddata a thystiolaeth ar brofiad pobl fyddar a defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru i sicrhau bod hyn yn llywio polisïau ac yn ymdrin â deilliannau. Nid yw'r data cyfredol yn dangos profiadau amrywiol bobl fyddar, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a phobl sydd wedi colli eu clyw yn llawn ac mae'n debygol bod defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yn enwedig wedi'u tangynrychioli.

# CYNHWYSIANT: Gweithio gyda phobl sy'n fyddar, yn ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu sydd wedi colli eu clyw i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd

**Egwyddorion ar gyfer y polisi Cynhwysiant:**
Er mwyn rhoi newid ystyrlon ar waith, mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn sail i'r polisi cynhwysiant:

1. **Ymgorffori hygyrchedd wrth lunio polisïau** a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus, i sicrhau bod gan bobl fyddar, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a phobl sydd wedi colli eu clyw fynediad cyfartal a'u bod yn elwa o bolisïau cyhoeddus yn yr un modd â phobl sy'n gallu clywed.

2. **Meithrin diwylliant o arloesi** a sicrhau datrysiadau technolegol cyflym i wella cydraddoldeb ar gyfer pobl fyddar, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a phobl sydd wedi colli eu clyw. Dylai bod anghenion y gymuned fyddar yn rhan annatod o sgyrsiau am dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) newydd a thrawsnewid digidol yng Nghymru.



RNID | Cefnogi pobl fyddar, sydd â cholled clyw neu dinitws

rnid.org.uk

**RNID yw enw masnachu Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID).**
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207720) a'r Alban (SC038926). Wedi'i chofrestru fel cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr Rhif 454169.